**Cwrs Sylfaenol Ceredigion**
**Uned Tri Deg Tri**

*Mynegi barn eto – yn defnyddio 'bod'*
*Expressing an opinion - using the 'that' clause*

Fallai (ei) bod hi'n brysur
Fallai (ei) fod e'n dost
Fallai bod pen tost 'da hi
Fallai bod problemau 'da hi




| | |
|---|---|
| Gobeithio | dy fod ti'n iawn<br>mod i'n iawn<br>(ei) fod e'n iawn<br>(ei) bod hi'n iawn |

**Sut mae'r cwrs yn mynd?**
(D)w i'n meddwl (ei) fod e'n hawdd / anodd

**Sut mae'r tiwtor?**
(D)w i'n meddwl (ei) fod e'n wych / ofnadwy

**Sut** (d)**ych chi'n dod ymlaen?**
(D)w i'n meddwl mod i wedi gwella / gwaethygu

| | | |
|---|---|---|
| Dwedodd Ffred | (ei) fod e<br>dy fod ti<br>(eich) bod chi<br>fod pawb | wedi blino |

Deialog

Ffred: (Wyt) **ti'n siŵr bod Gordon yn mynd i ffwrdd heno?**
Sandra: **Ydw. Dwedodd e** (ei) **fod e'n mynd am benwythnos cyfan.**
Ffred: **Gobeithio dy fod ti'n iawn.**
Sandra: **Gallwn ni fynd i chwarae bowls 'te.**
Ffred: **Gallwn - dw i'n edrych ymlaen. Ydy Gordon wedi dweud rhywbeth arall?**
Sandra: **Na**(c) (y)**dy. Mae e'n credu** (fy) **mod i'n dy helpu di gyda dy Gymraeg!**
Ffred: **Mae e'n iawn hefyd.**
Sandra: **O Ffred! mae hi mor braf mynd ma's gyda rhywun sy'n siarad Cymra**(e)**g!**

**Geirfa**

i ffwrdd / bant - off / away
gwella (gwell-) - to improve
gwaethygu (gwaethyg-) - to get worse
mor ... (TM) - so ...
prysur / bisi - busy
cyfan - whole / complete
sâl - ill
ofnadwy - awful
penwythnos - weekend
perffaith - perfect
gwych - excellent

**Gwaith Cartre**
**Uned 33**

*Gorffennwch:*

1. Fallai ei _______________ hi'n brysur.

2. Fallai ei _____________ e'n dost.

3. Gobeithio ______________ i'n iawn.

4. Sut _________________ cwrs yn mynd?

5. Wyt ti'n credu ________________ Gordon yn mynd i ffwrdd?

6. Dw i'n __________________ ymlaen at chwarae bowls.

7. Mae hi _____________ braf mynd ma's gyda rhywun _________ siarad Cymraeg!

8. Fallai ___________ problem 'da nhw.

9. Dw i'n meddwl ______________ ffarmwr yw e.

10. Beth wyt ti'n ei _______________ o'r llyfr?

*Rhowch 'Gobeithio' o flaen y brawddegau yma:*
*e.e. Mae hi'n sych = Gobeithio ei bod hi'n sych*

1. Dw i'n iawn.

2. Maen nhw'n brysur.

3. Mae e'n gweithio'n galed.

4. Mae'r cwrs yn hawdd.

5. Mae'r car 'da fe.

6. Rwyt ti'n deall.

7. **Ffred** yw e.

8 **Mercedes** sy 'da fe, nid Porsche.

***Pwyntiau i'w cofio:***

1. *When using 'mor' (so), do not use 'yn'. 'Mor' also causes TM, e.g.*

*Mae e mor **_**olygus (He's so handsome)*
*Maen nhw mor **d**wp (They're so stupid)*